

Datgoedwigo ym Mrasil

Mae'r adnodd yma ynghyd a'r ffeil PowerPoint cysylltiedig yn cefnogi addysgu'r gofynion canlynol o'r fanyleb.

CBAC – Manyleb Daearyddiaeth TGAU	
Cwestiwn allweddol 5.4.1	Sut mae pobl yn defnyddio ecosystemau ac amgylcheddau?

Gwybodaeth ychwanegol

Cwestiwn 1 a 2

Dylid ystyried lliwio'r sgwariau mewn un bloc gan fod hyn yn gymorth i werthuso faint o goedwig yr Amazon a gollwyd. Mae'r ffeil PowerPoint 'Datgoedwigo ym Mrasil' yn cynnig enghraifft o un ffordd i gwblhau'r diagram. Wrth lunio bloc fertigol ar gyfer pob cyfnod mae'r diagram yn ymdebygu i graff bar sydd wedyn yn gymorth wrth ddadansoddi'r patrymau.

Mae'r ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 1,000 km² agosaf.

Yn 2016 cyfanswm yr arwynebedd o'r goedwig a gollwyd oedd 8,000km².

Cwestiwn 3

Cyfanswm yr arwynebedd o'r goedwig a gollwyd ers 1970 = 769,000 km²

Cwestiwn 4

Cyfanswm a gollwyd ers 1970 769,000
 Arwynebedd y goedwig yn 1970 4,100,000 X 100 = 18.75%

Cwestiwn 5

Mae'r amcangyfrifon yn debygol i fod yn fwy cywir yn rhannol yn dilyn mwy o bryder am golli'r ecosystem ers yr 1970au. Hefyd mae hyn yn dilyn datblygiadau mewn technoleg synhwyro o bell megis gwyliadwriaeth awyrol a lloeren sy'n caniatáu casglu cofnodion mwy aml a chywir dros ardal ehangach.

Datgoedwigo ym Mrasil

Mae'r papur graff ar y dde yn cynrychioli amcangyfrif o arwynebedd coedwig law'r Amazon ym Mrasil sydd ar ôl ar ddechrau 1970 (4.1 miliwn km²).

Mae pob un o'r sgwariau bach yn cynrychioli 1,000 km².


Dilynwch y cyfarwyddiadau isod er mwyn dangos ehangder y datgoedwigo yng nghoedwig law'r Amazon ym Mrasil.

1) Erbyn diwedd 1990 amcangyfrifwyd fod tua 408,000 km² o goedwig law Brasil wedi ei cholli.

Lliwiwch 408 sgwar bach ar y papur graff i gynrychioli arwynebedd y goedwig a gollwyd.
Cofiwch gwblhau'r allwedd.

2) Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl er mwyn cwblhau gweddill y diagram.

Dyddiad	Colled (km ²)
1991 - 1995	84,000
1996 - 2000	84,000
2001 - 2005	112,000
2006 - 2010	53,000
2011 - 2015	28,000




Allwedd

	Coedwig a gollwyd rhwng 1907 a 1990
	Coedwig a gollwyd rhwng 1991 a 1995
	Coedwig a gollwyd rhwng 1996 a 2000
	Coedwig a gollwyd rhwng 2001 a 2005
	Coedwig a gollwyd rhwng 2006 a 2010
	Coedwig a gollwyd rhwng 2011 a 2015

Datgoedwigo ym Mrasil

- 3) Disgrifiwch y tueddiadau a ddangosir yn eich diagram.
- 4) Beth yw cyfanswm arwynebedd y goedwig law a gollwyd ers 1970?
- 5) Beth yw canran y goedwig law a gollwyd ers 1970?
- 6) Mae'r siart cylch isod yn dangos gwybodaeth debyg am gollir'r goedwig law ond yn defnyddio dull arall i gynrychioli hyn. Pa ddull ydych chi'n credu sy'n cynrychioli'r wybodaeth yn y modd mwyaf effeithiol? Rhowch reswm dros eich ateb.



- 7) Pam ydych chi'n credu fod yr amcangyfrifon o ran cyfanswm y datgoedwigo ers 2000 yn debygol o fod yn fwy cywir na'r amcangyfrifon a wnaed yn ystod y 1970au?
- 8) "Os bydd datgoedwigo yn parhau ar y gyfradd bresennol bydd y cyfan o goedwig law'r Amazon wedi ei cholli erbyn diwedd y ganrif hon". Gan ystyried y wybodaeth ar eich diagram, ydych chi'n credu fod y datganiad yma'n gywir? Rhowch resymau dros eich ateb.